

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

6^{ed} Mai 2015

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd O James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.00am – 1.00pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorwyr S Hudson, Cynghorydd RM Lewis, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd M Williams.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr A Archer bod ganddo fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn eitem rhif 23/15 yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol drafft ar gyfer 2014/15.

NODWYD.

3. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr John Lloyd-Jones, Aelod o'r Panel oedd yn adolygu Tirweddau Dynodedig yng Nghymru, gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at y drafodaeth ar y mater hwnnw fyddai'n digwydd yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Aeth y Cadeirydd rhagddo i amlinellu rhai o'r digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ar ran yr Awdurdod ers y cyfarfod diwethaf. Ymhlith y digwyddiadau hyn oedd Gwobrau Gwyrdd Allweddol Cadw Cymru'n Daclus, cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, a diwrnod cyflwyno'r cynllun 'Walkability' yn Nhrefdraeth. Hefyd roedd wedi mynychu nifer o gynadleddau fideo y Gymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, un ar Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol CAPC, a sawl un i ddidoli a phenodi Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol. Ychwanegodd y byddai'n teithio i APC y Peak District yr wythnos ganlynol lle cynhelir y cyfweiliadau terfynol ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol.

NODWYD.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25^{ain} o Fawrth 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.



Dyweddod un Aelod bod creu Ardaloedd Cadwraeth ychwanegol yn Nanhyfer a Lawrenni wedi'i drafod dan Eitem 19 Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth ac Ystyried Cyfarwyddiadau Erthygl 4, ond nad oedd hyn wedi'i amlygu yn y cofnodion. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud mai'r hyn a gytunwyd oedd y byddai swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Ardaloedd Cadwraeth yn Nanhyfer a Lawrenni ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor maes o law.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25^{ain} o Fawrth 2015 cyn belled â bod y gwelliant uchod yn cael ei gynnwys.

5. Materion yn codi

(a) Ymgynghori ynglŷn â'r Bil Cynllunio (Cymru) (Cofnod 4a)

Dyweddod y Prif Weithredwr bod y Bil Cynllunio (Cymru) wedi'i ystyried yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol y diwrnod cynt pan gafodd dau welliant eu cynnig i'r adrannau o'r Bil sy'n ymwneud â'r Parciau Cenedlaethol, a chymeradwywyd un ohonynt. Byddai'r ddadl i basio'r bil yn cael ei gynnal ar 19 Mai, a byddai adroddiad yn amlinellu ei effaith yn cael ei baratoi ar ôl y dyddiad hwnnw.

NODWYD.

6. Pwyllgor Rheoli Datblygu – Adroddiad y Cyfarfod

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar y 4^{ydd} Fawrth 2015.

7. Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2014/15

Dyweddod y Prif Swyddog Cyllid bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad, yn clustnodi systemau a phrosesau rheoli, ac yn amlygu materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw. Roedd cyflwyno'r Datganiad drafft i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gyfle i'r Aelodau gyfrannu at y cynnwys a thrafod y cynnwys. Roedd fformat y Datganiad yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, a chyflwynir y ddogfen derfynol gerbron yr Awdurdod i'w chytuno, ynghyd â'r Cyfrifon Blynyddol, fis Medi.

Gan droi at Adran IV, Camau o weithredu a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, cwestiynodd un Aelod y datganiad nad oedd unrhyw gynlluniau i wneud cyfarfodydd yr Awdurdod ar gael fel gwe-ddarllediad gan ei fod wedi tynnu sylw at y manteision o ddarlledu cyfarfodydd o'r blaen, ac roedd o'r farn y dylai swyddogion ystyried yr opsiynau yn fwy manwl. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud nad oedd y datganiad hwn yn amlygu'r sefyllfa bresennol gan fod swyddogion yn edrych ar yr opsiynau



ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. O ran profi'r Cynllun Adfer Trychineb, dywedwyd bod hyn ar y gweill ar hyn o bryd.

O ran adran V Adolygu Effeithiolrwydd chwe egwyddor y Cod Llywodraethu Corfforaethol, dywedodd un Aelod nad oedd o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir o dan Egwyddor 6 yn amlygu'r gwaith oedd wedi'i gyflawni, gan ofyn am ymhelaethu ar y pwynt hwn. Cytunodd y swyddogion y byddai naill ai gwybodaeth bellach yn cael ei ychwanegu, neu gellid cynnwys croesgyfeirio at rannau eraill o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau uchod a'u hymgorffori yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig fyddai'n cael ei ddwyn gerbron Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

8. Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Strategaeth

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod wedi cytuno i'r cynnig i sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Strategaeth. Roedd y papur gerbron yr Awdurdod yn cynnig Cylch Gorchwyl cyffredinol a sefydlu dau grŵp:

- i ymchwilio i ffyrdd eraill o reoli meysydd parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod neu a brydlesir gan yr Awdurdod; ac
- i ymchwilio i newidiadau posibl i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys rolau Canolfannau Croeso a Chanolfannau Ymwelwyr yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am i'r Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio i'w gwneud yn glir mai rôl y grwpiau yw cynghori yn unig, a bod y broses o wneud penderfyniadau yn parhau gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac y byddai'r grwpiau yn cyflwyno adroddiadau iddo yn rheolaidd.

Mynegodd nifer o Aelodau bryder eu bod wedi datgan buddiant yn y trafodaethau diweddar ar feysydd parcio ac y gallai aelod o'r cyhoedd, felly, ystyried eu bod drwy hynny wedi gwneud eu sefyllfa yn glir ar y materion hyn. Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau am ystyried eu sefyllfa yn ofalus oherwydd canfyddiad y cyhoedd o gael eu gweld yn rhoi eu hunain neu eu ward mewn sefyllfa ffafriol. Fodd bynnag, nododd hefyd na fyddai'r Aelodau o ganlyniad i Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth yn cael eu hatal rhag eistedd ar grŵp oherwydd y farn yr oeddent wedi'i mynegi yn y gorffennol, cyn belled â'u bod yn ystyried y mater o'r newydd gyda meddwl agored.

PENDERFYNWYD:

- a) cytuno ar y Cylch Gorchwyl, yn amodol ar gynnwys datganiad bod y grwpiau o natur ymgynghorol;



- b) sefydlu grŵp i edrych ar y gwaith o reoli meysydd parcio yn y dyfodol, a'r grŵp i gynnwys Mr A Archer, Mr D Ellis, Cyngorwyr P Harries, R Owens, P Morgan ac A Wilcox;
- c) sefydlu grŵp i edrych ar ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr yn y dyfodol, a'r grŵp hwn i gynnwys Ms C Gwyther, Mr AE Sangster, Cyngorwyr L Jenkins, M James, R Kilmister a D Rees.

9. Adnoddau Naturiol Cymru - Ymgynghori ar y Diweddariadau i Gynlluniau Rheoli Basn Afon

Dywedodd Pennaeth Cyfarwyddo y Parc, yn absenoldeb y Swyddog Polisi Cadwraeth, bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgynghori ar ddiweddariadau i'r cynlluniau rheoli ar gyfer y tair ardal basn afon sy'n effeithio ar Gymru. Roedd y dalgylchoedd perthnasol i'r Parc Cenedlaethol yn dod o fewn ardal Gorllewin Cymru. Roedd sylwadau'r swyddogion a anfonwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth yr adroddiad. Hefyd yn atodol oedd nodyn ar y Gyfarwydddeb Nitradau Ewropeaidd a statws maethynol Dalgylch Aberdaugleddau. Roedd y nodyn hwn yn seiliedig ar ddeunydd a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn egluro bod gan y dalgylch statws 'Ambr' fel posibilrwydd o gael ei ddsbarthu yn y dyfodol fel ymgeisydd ar gyfer cael ei ddynodi yn Barth Perygl Nitradau (NVZ) fyddai'n cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y Parc Cenedlaethol. Petai'r parth yn cael ei ddynodi, byddai angen drafftio erbyn diwedd 2015 a byddai swyddogion yn cyflwyno adroddiadau pellach i'r Aelodau gydag unrhyw ddiweddariad.

Roedd sawl Aelod yn ymwybodol o'r sefyllfa ar ôl mynychu gweithdy fis Rhagfyr 2014 lle'r oedd swyddogion CNC wedi siarad a datgan eu bod yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o ddynodi parth NVZ. Gofynnodd y swyddogion pa gamau yr oedd yr Awdurdod yn eu cymryd o ran ymwneud o ddydd i ddydd â'r gymuned ffermio, a hefyd roeddent yn croesawu'r awgrym y gellid cymryd ymagwedd fwy canolog at dreulio gwastraff fferm yn anaerobig a chynhyrchu bio-nwy. Atebodd y swyddog mai CNC oedd yr awdurdod arweiniol yn y sefyllfa hon, ac y byddai'r cyfryw ddynodiad yn codi llawer o gwestiynau y byddai'n rhaid i'r Awdurdod eu hystyried. Fodd bynnag, nid oedd sicrwydd y byddai'r dynodiad yn cael ei wneud. O ran treulio anaerobig, roedd yr Awdurdod wedi cynnwys rhywfaint o gyngor yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy, ac y gellid adolygu'r cyngor hwn. Amlygodd Aelodau eraill pa mor bwysig oedd parhau i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr yn enwedig yng ngogledd y Parc Cenedlaethol, a'u heffaith ar statws baner las oedd yn bwysig iawn i'r diwydiant twristiaeth.

NODWYD.

10. Arolwg o Ansawdd Awyr y Nos 2015 - Drafft Terfynol



Dywedwyd mai diben y rhaglen Llefydd Awyr Dywyll oedd cydnabod ardaloedd ag awyr dywyll ac ymrwymo'r awdurdodau perthnasol i'w cynnal a'u gwella. Roedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i dynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll ac roedd Parc Cenedlaethol Eryri yn gweithio tuag at ddod yn le awyr dywyll.

Nid oedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn addas i fod yn Warchodfa Awyr Dywyll nac yn Barc Awyr Dywyll am ei fod yn gymharol fach, ar ffurf rhuban sydd wedi'i effeithio gan ffynonellau golau sylweddol ar yr Aberdaugleddau. Yn lle hynny roedd swyddogion wedi ceisio clustnodi cyfres o Safleoedd Awyr Dywyll posibl ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol. Disgrifiwyd y safleoedd hyn fel safleoedd arsylwi bach, hygyrch o ansawdd awyr y nos da. Ar hyn o bryd dim ond un safle Darganfod Awyr Dywyll sydd yn y Parc Cenedlaethol, sef maes parcio yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ne Aberllydan. Gallai nifer o'r safleoedd hyn ar wasgar drwy'r Parc fod o gymorth i godi proffil y Parc, nid yn unig i seryddwyr a ffotograffwyr ond fel rhan o brofiadau mwy cyffredinol o'r 'Parc-yn-y-nos' o bosibl y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr.

Roedd Ymgynghorwyr TACP wedi gwneud cais llwyddiannus am y gwaith, a'u tasg oedd clustnodi rhestr fer o ddeg o safleoedd Darganfod Awyr Dywyll posibl o fewn y Parc Cenedlaethol, a gwneud rhai argymhellion ar amddiffyn a hyrwyddo'r safleoedd hyn, yn ogystal ag awyr dywyll yn fwy cyffredinol yn y Parc Cenedlaethol. Roedd eu hadroddiad wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau i'r Arolwg, cynigiwyd bod y swyddogion yn dosbarthu'r arolwg i berchnogion tir perthnasol a phartïon â diddordeb. Byddai hyn yn gyfle i'r partneriaid gytuno a ddylai statws Darganfod Awyr Dywyll fod yn gymwys i bob un, ac os felly, sut fyddai pob safle yn cael ei hyrwyddo mewn modd cydlynol fel rhan o gynnis ehangach y Parc Cenedlaethol ar hamdden ac atyniadau i ymwelwyr.

Cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad oedd yn adroddiad ardderchog yn eu barn hwy, o ystyried y byddai dynodi safleoedd Darganfod yn ychwanegu at y mwynhad o'r Parc Cenedlaethol. Gofynnodd yr Aelodau a allai'r swyddogion fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd at ddatblygiadau mawr megis y purfeydd olew a'r porthladdoedd mawr i ofyn a fyddai modd lleihau lefelau'r goleuadau heb beryglu iechyd a diogelwch. Atebodd y swyddogion drwy ddweud bod goleuadau yn gost i bob cwmni, a bernid ei bod yn annhebygol y byddai'r cwmnïau yn defnyddio ynni yn ddiangen, ond gellid cysylltu â hwy.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r Arolwg Ansawdd Awyr y Nos fel sail ar gyfer trafodaeth rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydliadau partner ar roi Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll ymlaen i'w dynodi.



11. Diweddariad ar Staffio

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael cais gan y Cyfarwyddwr Cyfeirio a Chynllunio am leihau ei horiau gwaith i 3 diwrnod yr wythnos. Roedd wedi cytuno i'r cais hwn er y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu. O ganlyniad, byddai'r Cyfarwyddwr yn cadw cyfrifoldeb am Gynllunio, tra byddai'r cyfrifoldebau rheoli am Gyfarwyddo'r Parc yn cael eu cyflawni gan y Prif Weithredwr.

NODWYD.

12. Adolygiad o Dirweddau Dynodedig

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr John Lloyd-Jones, Aelod o'r Panel sy'n gwneud yr adolygiad, i'r cyfarfod. Dechreuodd Mr Lloyd-Jones drwy amlinellu'r argymhellion a wnaed yn Rhan 1 o'r Adolygiad, ac roedd wedi nodi bod yr Aelodau wedi'u hystyried yn eu cyfarfod blaenorol.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynghylch rhai o'r argymhellion hyn, a chytunodd Mr Lloyd-Jones i edrych i mewn i'r pwyntiau a wnaed. Aeth ymlaen i amlinellu cylch gwaith ail ran yr adolygiad. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer hyn i'w gyflwyno erbyn 31 Mai a byddai'r Panel yn derbyn tystiolaeth lafar yn ystod mis Mehefin, a'r argymhellion i'w cyflwyno i'r Gweinidog erbyn 31 Gorffennaf. Hefyd roedd yr Aelodau wedi gwneud rhai sylwadau ar Ran 2 o'r adolygiad, a diolchodd Mr Lloyd-Jones iddynt am y sylwadau hyn gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn sylwadau pellach oddi wrth yr Awdurdod ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

NODWYD.

